# Mesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011

**2011 mccc 3**

## 7 Darpariaeth drosiannol a darpariaeth ganlyniadol etc

(1) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, wneud y cyfryw ddarpariaeth drosiannol, darpariaeth ddarfodol, darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth arbed, darpariaeth gysylltiedig, darpariaeth atodol a darpariaeth arall ag y mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol neu'n briodol mewn cysylltiad â'r Mesur hwn neu i roi llwyr effaith iddo.

(2) Mae'r ddarpariaeth y caniateir ei gwneud o dan yr adran hon yn cynnwys darpariaeth sy'n diwygio, diddymu neu fel arall yn addasu deddfiad, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny.

(3) Yn yr adran hon, mae "deddfiad" yn cynnwys, ymhlith pethau eraill, Mesur Cynulliad, Deddf Cynulliad neu Ddeddf Seneddol, ac is-ddeddfwriaeth, pa un a ddaethant i rym cyn neu ar ôl i'r adran hon ddod i rym.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 7 mewn grym ar 8.4.2011, gweler **a. 9(2)(b)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011, Adran 7.